



Un Llais Cymru
One Voice Wales

Cynghorau Cymuned a Thref
Canllawiau Digidol

Digideiddio Cyflenwi Gwasanaethau

Ionawr 2025

Cynnwys

Cyflwyniad	Error! Bookmark not defined.
Gwasanaethau Nodweddiadol a'u Trawsnewidiad Digidol	3
Rheoli Adeiladau Cymunedol a Neuaddau Pentref	3
Rheoli Parciau a Meysydd Chwarae	3
Rheoli Mynwentydd	3
Rheoli Rhandiroedd	4
Darparu toiledau cyhoeddus	4
Gwasanaethau Eraill Seiliedig ar Le	4
Manteision Digiddeiddio	4
Cost Elfennau Digiddeiddio	4
Cyflwyno'n Ddwylieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg	5
Casgliad	5

Digideiddio Gwasanaethau ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

Trawsnewid Llywodraethu Lleol yn yr Oes Ddigidol

Cyflwyniad

Wrth i'r byd symud fwyfwy tuag at ddatrysiadau digidol, mae gan Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru gyfle unigryw i wella'r modd y maent yn darparu gwasanaethau drwy ddigideiddio. Gall y trawsnewid hwn symleiddio gweithrediadau, gwella hygyrchedd, a meithrin mwy o ymgysylltiad cymunedol.

Gwasanaethau Nodweddiadol a'u Trawsnewidiad Digidol

Rheoli Adeiladau Cymunedol a Neuaddau Pentref

Mae adeiladau cymunedol a neuaddau pentref yn ganolog i fywyd lleol, gan gynnal digwyddiadau a gweithgareddau amrywiol. Gall digideiddio symleiddio eu rheolaeth trwy systemau archebu ar-lein, teithiau rhithwir, a chalendrau digidol. Gall preswylwyr archebu cyfleusterau ar-lein, gwirio argaeledd mewn amser real, a hyd yn oed wneud taliadau'n ddiogel trwy byrth talu integredig. Gall teithiau rhithwir ganiatáu i ddarpar ddefnyddwyr weld y gofodau heb fod angen ymweliad corfforol, gan arbed amser ac adnoddau.

Rheoli Parciau a Meysydd Chwarae

Mae parciau a meysydd chwarae yn hanfodol ar gyfer llesiant cymunedol. Gall datrysiadau digidol gynnwys defnyddio apiau symudol i roi gwybod am faterion cynnal a chadw, amserlennu ar-lein ar gyfer gweithgareddau parc, ac arwyddion digidol i ddarparu gwybodaeth amser real am ddigwyddiadau parc. Gall yr offer hyn sicrhau bod parciau'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda a bod y gymuned yn gwybod am yr amwynderau sydd ar gael.

Rheoli Mynwentydd

Gellir digideiddio rheolaeth safleoedd claddu trwy systemau cadw cofnodion ar-lein. Gall y systemau hyn gynnal cronfeydd data manwl o leiniau, y gall staff a'r cyhoedd gael mynediad iddynt i gael gwybodaeth am argaeledd lleiniau, cofnodion claddu, ac amserlenni cynnal a chadw. Yn ogystal, gall mapio safleoedd claddu ar-lein helpu teuluoedd i ddod o hyd i safleoedd beddau yn hawdd.

Rheoli Rhandiroedd

Gellir gwella rheolaeth rhandiroedd trwy lwyfannau digidol sy'n delio â dyraniadau lleiniau, taliadau rhent, a chyhoeddiadau cymunedol. Gall porth ar-lein ganiatáu i ddeiliaid rhandiroedd reoli eu lleiniau, talu ffioedd, a chyfathrebu â chyd-arddwyr. Gall hyn leihau beichiau gweinyddol a gwella'r profiad rhandiroedd cyffredinol.

Darparu Toiledau Cyhoeddus

Gall toiledau cyhoeddus elwa o systemau cofnodi gwaith cynnal a chadw digidol a monitro defnydd amser real. Gall apiau symudol alluogi defnyddwyr i riportio materion fel glendid neu broblemau plymio yn uniongyrchol i'r tîm cynnal a chadw. At hynny, gall arwyddion digidol ddarparu gwybodaeth am y toiledau cyhoeddus agosaf sydd ar gael a'u horiau agor.

Gwasanaethau Eraill sy'n Seiliedig ar Leoedd

Gellir digideiddio gwasanaethau eraill, megis rheoli gwastraff, goleuadau stryd, a diogelwch cymunedol, trwy apiau symudol a llwyfannau ar-lein. Gall preswylwyr roi gwybod am broblemau, olrhain ceisiadau gwasanaeth, a derbyn diweddariadau trwy'r offer digidol hyn, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n amserol ac yn effeithlon.

Manteision Digiddeiddio

Mae digideiddio gwasanaethau cynghorau cymuned a thref yn cynnig nifer o fanteision:

- Hygyrchedd: Gellir cael mynediad i lwyfannau digidol 24/7, gan ganiatáu i breswylwyr ryngweithio â gwasanaethau pan fydd yn gyfleus iddynt.
- Effeithlonrwydd: Mae awtomeiddio tasgau gweinyddol yn lleihau'r llwyth gwaith ar staff, gan ganiatáu iddynt ganolbwyntio ar dasgau mwy hanfodol.
- Tryloywder: Mae systemau ar-lein yn darparu tryloywder wrth gyflenwi gwasanaethau, gan alluogi preswylwyr i olrhain ceisiadau a gweld diweddariadau mewn amser real.
- Arbedion Cost: Gall datrysiadau digidol leihau'r angen am brosesau papur ac ymweliadau corfforol, gan arwain at arbedion cost sylweddol.
- Effaith Amgylcheddol: Mae lleihau'r defnydd o bapur a theithio ffisegol yn cyfrannu at ôl troed carbon is.

Cost Elfennau Digiddeiddio

Gellir rhannu'r gost o ddigideiddio gwasanaethau yn sawl elfen allweddol:

- Gosodiad Cychwynnol: Mae hyn yn cynnwys cost datblygu a gweithredu llwyfannau digidol, megis gwefannau, apiau symudol, a systemau ar-lein. Gall hefyd gynnwys prynu caledwedd fel cyfrifiaduron, gweinyddwyr ac arwyddion digidol.
- Hyfforddiant: Bydd angen hyfforddiant ar staff i ddefnyddio offer digidol newydd yn effeithiol. Mae'r gost hon yn cynnwys sesiynau hyfforddi, deunyddiau, ac o bosibl llogi hyfforddwyr allanol.
- Cynnal a Chadw: Mae costau cynnal a chadw parhaus yn cynnwys diweddariadau meddalwedd, cymorth technegol, a monitro system i sicrhau gweithrediad llyfn.

- Diogelwch: Mae sicrhau diogelwch data a phreifatrwydd yn hollbwysig. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn mesurau seiberddiogelwch, megis waliau tân, amgryptio, ac archwiliadau diogelwch rheolaidd.

Cyflwyno'n Ddwieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg

Yng Nghymru, mae darparu gwasanaethau dwieithog yn hanfodol i ddiwallu anghenion yr holl drigolion. Dyma sut y gall digideiddio gefnogi hyn:

- Opsiynau Iaith: Dylai llwyfannau digidol gynnig y dewis i ddefnyddwyr ddewis rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Gellir gweithredu hyn trwy ddewislenni dewis iaith ar wefannau ac apiau.
- Cyfieithu Cynnwys: Dylai'r holl gynnwys digidol, gan gynnwys ffurflenni, cyfarwyddiadau, a hysbysiadau, fod ar gael yn y ddwy iaith. Efallai y bydd hyn yn gofyn am wasanaethau cyfieithu proffesiynol i sicrhau cywirdeb a phriodoldeb diwylliannol.
- Cefnogaeth i Gwsmeriaid: Dylai gwasanaethau cymorth i gwsmeriaid fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, i alluogi preswylwyr i ofyn am gymorth a rhoi adborth yn eu dewis iaith.
- Cydymffurfiaeth: Mae cadw at Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob gwasanaeth digidol yn bodloni gofynion cyfreithiol ar gyfer darpariaeth ddwieithog.

Casgliad

Mae digideiddio gwasanaethau Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru yn gyfle i wella effeithlonrwydd, hygyrchedd ac ymgysylltiad cymunedol. Drwy fuddsoddi mewn atebion digidol a sicrhau darpariaeth ddwieithog, gall cynghorau ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion esblygol eu trigolion. Mae'r trawsnewid hwn nid yn unig yn symleiddio gweithrediadau ond hefyd yn meithrin cymuned fwy cynhwysol a chysylltiedig, gan baratoi'r ffordd ar gyfer dyfodol lle mae llywodraethu lleol yn fwy ymatebol a thryloyw.

Hanes Fersiwn

	Dyddiad	Cyhoeddwr	Rheswm	Dyddiad Adolygu
V1	16/02/25	Justin Horrell	Fersiwn Cychwynnol	16/02/26



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

Funded by
Welsh Government